



Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Gwaith ieuencid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc

Yn cau 10 Ionawr 2025

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein

Cwestiynau:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n teimlo bod y diffiniad arfaethedig o waith ieuencid yn glir ac yn helpu i wahaniaethu rhwng gwaith ieuencid a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc?

Ydym, rydym yn teimlo bod y diffiniad yn ddefnyddiol

Cwestiwn 2: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r dull gweithredu hwn?

Ddim yn siŵr

Mae perygl wrth fanylu ar ymgysylltiad gwirfoddol y bydd bwlch rhwng y gwasanaethau hynny a'r rhai gydag ymgysylltiad gorfodol. Mae angen gwirioneddol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod eu Gweithwyr Cymdeithasol, timoedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a nifer o dimoedd eraill yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau prawf a thimoedd Troseddu Ieuencid er enghraifft. Mae'r perygl bod y diffiniad yn gwneud iddynt ymddangos ar wahân, ond mae angen iddynt fod yn rhyng-gysylltiedig.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n teimlo y bydd y gofyniad am gynllun strategol gwaith ieuencid yn helpu i gryfhau'r ffordd y caiff gwaith ieuencid ei gynllunio a'i gyflenwi?

Ydym

Mae'r Tîm Rhwydwaith yn cytuno fod cael cynllun strategol gwaith ieuencid yn sicrhau ffocws wedi'i arwain gan flaenoriaethau a mesurau atal ac ymyrraeth wedi'u gyrru gan dystiolaeth i ddiogelu a chefnogi plant.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r llwyth gwaith mawr sydd eisoes yn wynebu timoedd yr awdurdod lleol sy'n ei chael yn anodd gyda'r capasiti dadansoddol sy'n ofynnol i ddarparu cynllun o'r fath. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn dymuno amlygu'r gwaith Swyddfa Gartref parhaus o ran Canolfannau Trais Ieuencid a'r dyletswyddau statudol tebygol y bydd Awdurdodau Lleol wedi'u rhoi arnynt i adrodd yn y gofod hwn. Anogwn Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofynion a strwythurau adrodd o fewn y cynlluniau strategol hyn yn adlewyrchu fframweithiau llywodraeth partneriaeth presennol ac yn alinio i gefnogi gweithrediad y Canolfannau Trais Ieuencid yn hytrach na dyblygu gofynion neu wahaniaethu o'r gwaith hwn.



Cwestiwn 4: Ydych chi'n teimlo y bydd y cynllun strategol gwaith ieuenctid yn darparu strwythur atebolwydd effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid?

Ydym

Cyhyd a'i fod yn ymwybodol o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill ar Awdurdodau Lleol ac yn sicrhau ymgysylltiad priodol gyda nifer o bartneriaid, yna credwn y bydd y cynllun strategol arfaethedig yn helpu i ddarparu darpariaeth gwasanaeth mwy cynhwysfawr gyda mwy o ffocws a chefnogi mewn ffordd a fydd hefyd yn cefnogi gweithwyr ieuenctid.

Cwestiwn 5: Bwriad y cynigion yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn cyflenwi darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ffordd gydweithredol yn unol â'r angen lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

Ydym

Mae'r Tîm Rhwydwaith yn cydnabod yr angen i gael eu harwain gan yr angen yn lleol, fodd bynnag, awgrymwn restru partneriaid allweddol yn y canllawiau er mwyn cynorthwyo a sicrhau'r ymgysylltiad priodol. Awgrymwn fel lleiafswm, i gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Prawf, Sefydliadau Addysgol (Cynradd, Uwchradd a Cholegau) a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Cwestiwn 6: Ydy'r trefniadau atebolwydd a gynigir yn y fframwaith statudol yn ddigon cadarn a chlir?

Ydym, er ein bod yn cydnabod y gall asiantaethau unigol sy'n aelodau fod â safbwyntiau gwahanol.

Cwestiwn 7: Ydy'r hawlogaeth arfaethedig i waith ieuenctid yn crynhoi'n glir sut rydym i gyd yn dymuno gweld gwaith ieuenctid yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi?

Ydym, er ein bod yn cydnabod y gall asiantaethau unigol sy'n aelodau fod â safbwyntiau gwahanol.

Cwestiwn 8: Mae'r fframwaith statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwaith ieuenctid. Byddai'r union ddull o gyflawni hyn yn cael ei benderfynu ar sail yr angen a'r strwythurau lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

Ydym, er ein bod yn cydnabod y gall asiantaethau unigol sy'n aelodau fod â safbwyntiau gwahanol.